*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Alldro Amcanol 2018/19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu amcan i'r Aelodau o berfformiad refeniw a chyfalaf amcanol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ym mlwyddyn ariannol 2018/19.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2017, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi cymeradwyo £34.1m o gyllideb refeniw. Roedd y gyllideb honno'n cynnwys cyfraniad o £0.65m o'r cronfeydd wrth gefn. Fel yr oedd pethau ar 31 Ionawr 2019, rhagwelir o hyd y bydd angen dyfarniad y gyllideb lawn, gan gynnwys y cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn.

3 Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb gyfalaf o £4.9m yn Rhagfyr 2017, a chynyddodd honno i £5.9m ar gyfer prosiectau sy'n weddill ers 2017/18. Rhagwelir mai'r gwariant cyfalaf yn y flwyddyn lawn yw £2.4m, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod amseriad cyflawni nifer o brosiectau wedi'i ad-drefnu.

**ARGYMHELLIAD**

4 Gofynnir i'r Aelodau nodi bod yr Awdurdod yn gwneud y canlynol:

(i) rhagweld defnyddio ei gyllideb refeniw yn llwyr, sef £34.1m yn 2018/19;
(ii) rhagweld gwariant cyfalaf o £2.4m yn ystod 2018/19, o gymharu â'r cynllun sef £5.9m; a
(iii) rhagweld defnyddio'r holl ddyraniadau grant yn llwyr.

**CEFNDIR**

5 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r incwm a gwariant refeniw a chyfalaf gwirioneddol yn y flwyddyn hyd at 31 Ionawr 2019, ac mae'n amcangyfrif sefyllfa ragolygol ar gyfer diwedd y flwyddyn.

6 Mae'r grantiau a ddyranwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi yn y flwyddyn, ond nid ydynt wedi'u cynnwys yn y ffigyrau refeniw a chyfalaf.

**GWYBODAETH**

**Y Gyllideb Refeniw**

7 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2017, fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gymeradwyo cylideb refeniw o £34.1m. Roedd hyn yn cynnwys cyfraniad o £0.65m o'r cronfeydd wrth gefn. Yn ôl y rhagolygon ar 31 Ionawr 2019, bydd angen holl ddyraniad y gyllideb, gan gynnwys y cyfraniad o'r cronfeydd wrth gefn.

8 Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r incwm a'r gwariant o flwyddyn i flwyddyn, a'r rhagolygon o ran yr alldro.

| | Cyllideb 2018/2019 £'m | Gwariant hyd at 31/01/2019 £'m | Amcangyfrif o'r alldro £'m | Amrywiad 2018/2019 £'m |
|---|---|---|---|---|
| Costau Gweithwyr | 24.8 | 20.3 | 24.8 | 0 |
| Safleoedd | 1.7 | 1.4 | 1.9 | 0.2 |
| Cludiant | 1.0 | 0.8 | 1.1 | 0.1 |
| Cyflenwadau | 3.0 | 2.1 | 3.1 | 0.1 |
| Taliadau Trydydd Partïon | 0.9 | 0.5 | 0.9 | 0 |
| Ariannu Cyfalaf | 3.0 | 0.3 | 2.7 | (0.3) |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **34.4** | **25.4** | **34.5** | **0.1** |
| Incwm | (0.3) | (0.2) | (0.4) | (0.1) |
| **Gwariant Net** | **34.1** | **25.2** | **34.1** | **0** |

9 Mae lefel uwch y gweithgarwch dros yr haf wedi rhoi pwysau mawr ar y gyllideb refeniw. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy reoli swyddi gwag tymor byr, rheoli gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau, a chostau ariannu cyfalaf is. Mae'r camau hyn wedi golygu bod golygu bod modd rheoli'r gyllideb o fewn y terfynau a osodwyd gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, cafwyd rhai pwysau o ran costau, a cheir amlinelliad ohonynt isod.

**Costau Gweithwyr**

10 Teimlwyd pwysau yn y maes gwariant hwn oherwydd bod mwy o weithgarwch yn ymwneud â thanau glaswellt a rhostir wedi digwydd yn ystod yr haf. Yn ôl y rhagolygon cyffredinol, bydd costau gweithwyr yn cyd-fynd â'r gyllideb, er bod y tabl isod yn dangos y pwysau ar gostau diffoddwyr tân.

| | Cyllideb 2018/2019 £'m | Gwariant hyd at 31/01/2019 £'m | Amcangyfrif o'r Alldro £'m | Amrywiad 2018/2019 £'m |
|---|---|---|---|---|
| Prif Swyddogion | 0.6 | 0.6 | 0.6 | 0 |
| Diffoddwyr Tân | 18.4 | 15.1 | 18.6 | 0.2 |
| Staff Cefnogol | 5.1 | 4.2 | 4.9 | (0.2) |
| Hyfforddiant | 0.6 | 0.4 | 0.6 | 0 |
| Amrywiol | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0 |
| **CYFANSWM GWEITHWYR** | **24.8** | **20.4** | **24.8** | **0** |

11 Mae costau Diffoddwyr Tân, sy'n gysylltiedig â lefelau uwch o weithgarwch, wedi cael eu lliniaru'n rhannol drwy amcancanfrif is o'r ddarpariaeth bensiynau.

12 O ran staff cefnogol, amcangyfrifir tanwariant oherwydd nifer o swyddi gwag yn y tymor byr.

13 Cafwyd pwysau yn ystod y flwyddyn hefyd, oherwydd bod rhagor o hyfforddiant cymorth cyntaf wedi cael ei ddarparu ar draws y Gwasanaeth. Mae rhagolygon yr alldro yn dal yn cyd-fynd â'r gyllideb oherwydd bod y costau'n cael eu rheoli'n ofalus.

**Safleoedd**

14 Rhagwelir gorwariant o £0.2m ar gyfer y flwyddyn gyfan, ac mae hyn yn adlewyrchu costau ychwanegol o ran costau atgyweirio a chynnal a chadw ac ynni. Mae'r costau ynni wedi codi oherwydd bod tariffau bron i 15% yn uwch.

15 Mae'r gorwariant yn cael ei wrthbwyso'n rhannol drwy ragor o incwm drwy feddiannu adeiladu ar y cyd, a dangosir hyn yn yr incwm.

16 Cynhaliwyd arolwg o gyflwr yr adeiladau yn ystod y flwyddyn, a bydd yr arolwg yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio gwariant yn y blynyddoedd i ddod.

**Cludiant**

17 Ar y cyfan, amcangyfrifir y bydd gorwariant o £0.1m ar y gyllideb cludiant, a hynny oherwydd cynnydd ym mhrisiau tanwydd a chostau'n gysylltiedig â lefelau uwch o weithgarwch yn ystod yr haf.

**Cyflenwadau**

18 Rhagwelir y bydd £0.1m o orwariant ar y gyllideb ar gyfer cyflenwadau. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau o ran costau a gweithgareddau dan nifer o benawdau. Yn arbennig, teimlir pwysau mewn TGCh oherwydd costau yn gysylltiedig â chynnal gweinyddion a rhaglenni gweithredol hanfodol.

19 Bydd tanwariant ar y gyllideb cyfathrebu oherwydd nifer o ffactorau, gan cynnwys gostyngiad yng nghost rhenti llinellau a chostau yn gysylltiedig â ffonau symudol oherwydd newidiadau yn nhrefniadau contractau a chyflwyno ffonau VoIP newydd (llais dros brotocol y rhyngrwyd).

**Ariannu Cyfalaf**

20 Mae'r taliadau ar y gyllideb refeniw ar gyfer ariannu'r rhaglen gyfalaf yn llai na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer oherwydd bod derbyniadau cyfalaf, yn bennaf yr elw o werthu hen orsaf dân Wrecsam, wedi cael eu defnyddio yn 2017/18.

**INCWM**

**21** Rhagwelir bod yr incwm £0.1m yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod staff wedi cael eu secondio a bod incwm ychwanegol wedi dod o ganlyniad i feddiannu safleoedd ar y cyd.

**INCWM GRANT**

22 Mae'r Awdurdod yn cael nifer o grantiau, a dyma grynodeb ohonynt isod:-

| | £'r |
|---|---|
| Firelink | 0.4 |
| Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol | 0.1 |
| Ymyrriadau | 0.2 |
| Cydnerthedd Cenedlaethol | 0.2 |
| Y Ffenics | 0.1 |
| Fforwm Lleol Cymru Gydnerth | 0. |

23 Bydd yr incwm grant yn cael ei ddefnyddio'n llwyr yn y flwyddyn, a hynny yn unol â thelerau ac amodau'r grantiau. Mae'r gwariant ar grantiau'n uwch na'r gyllideb a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, ac mae wedi ei eithrio o'r ffigyrau sydd yn Atodiad A.

**Y RHAGLEN GYFALAF**

24 Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwy'r rhaglen gyfalaf o £4.9m, a chynyddodd hon i £5.9m ar gyfer prosiectau sy'n weddill ers 2017/18. Mae Atodiad B yn darparu dadansoddiad o'r cynlluniau, a rhagwelir mai £2.4m fydd y gwariant alldro blwyddyn lawn.

25 Mae'r rhagolygon ar gyfer blwyddyn lawn yn adlewyrchu'r ffaith fod nifer o brosiectau wedi cael eu had-drefnu i gyfnodau yn y dyfodol fel rhan o'r strategaeth tymor hir i adolygu'r modd y defnyddir asedau a beth yw'r costau refeniw cysylltiedig.

| | Cyllideb 2018/2019 £'m | Gwariant hyd at 31/01/2019 £'m | Amcangyfrif o'r Alldro £'m | Amrywiad 2018/2019 £'m |
|---|---|---|---|---|
| Safleoedd | 1.4 | 0.3 | 0.9 | (0.5) |
| Cludiant | 1.1 | 0.3 | 0.4 | (0.7) |
| TGCh | 1.0 | 0.1 | 0.3 | (0.7) |
| Ystafell Reoli | 0.8 | 0.5 | 0.6 | (0.2) |
| Adnewyddu System AD | 0.1 | 0.1 | 0.1 | (0.1) |
| Gweithrediadau | 1.5 | 0.1 | 0.2 | (1.4) |
| **CYFANSWM** | **5.9** | **1.3** | **2.4** | **(3.5)** |

26 Bydd yr arolwg o gyflwr yr ystâd, a gynhaliwyd yn ddiweddar, yn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf ar safleoedd yn y dyfodol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ac amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae cyllid ar gyfer y Gwasanaeth yn llesol i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn yn unol â'r ddarpariaeth gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Rhaid i'r Awdurdod yn ôl y gyfraith osod cyllideb fantoledig, a rhoi gwybod i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu os oes unrhyw wyro oddi wrth hynny. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae incwm a gwariant yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddigon o arian i osod cyllideb fantoledig. Os oes gofynion mawr ar y Gwasanaeth dros gyfnod hir, mae'n bosibl y bydd angen cyllid ychwanegol i gynnal y ddarpariaeth gwasanaethau. |